



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref LF/HL/1253/13

Ann Jones AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc  
Bae Caerdydd  
Caerdydd CF99 1NA

6 Ionawr 2014

Annwyl Ann,

### **Bil Addysg (Cymru)**

Yn sgil y ddadl ar egwyddorion cyffredinol a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, ac ar ôl ystyried yn fanwl yr adroddiad craffu defnyddiol a baratowyd gan eich Pwyllgor a hefyd y dadleuon o bob ochr, rwyf wedi penderfynu o blaid diddymu'r darpariaethau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o Fil Addysg (Cymru).

Rwy'n parhau'n ymrwymedig i gefnogi ein dysgwyr yng Nghymru, ac rwyf hefyd wedi gwrandao ar farn rhanddeiliaid ac Aelodau'r Cynulliad sy'n dweud mai'r peth gorau fyddai diddymu'r darpariaethau AAA o'r Bil hwn, gan eu rhoi yn hytrach mewn Bil Diwygio AAA ar wahân. Mae'r Llywodraeth hon yn rhoi pwys mawr ar y broses graffu - ac felly byddaf yn rhoi fy nghefnogaeth i ddiddymu Rhan 3 (Personau ag Anawsterau Dysgu) o'r Bil hwn.

Fodd bynnag, hoffwn sicrhau rhanddeiliaid ac Aelodau'r Cynulliad y bydd fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda nhw i gyflwyno deddfwriaeth gydlynus a holistaidd cyn gynted â phosibl. Er fy mod yn siomedig o safbwynt y dysgwyr eu hunain, gan y bydd oedi cyn gweithredu'r darpariaethau, hoffwn bwysleisio nad yw hyn yn gam yn ôl mewn unrhyw ffordd. Rwy'n cydnabod pa mor hanfodol yw gweithio ar y cyd ar ddeddfwriaeth sydd mor bwysig â hon, ac rwy'n gobeithio y byddwch chi ac aelodau eich Pwyllgor yn cyfrannu at y gwaith o ddarparu deddfwriaeth diwygio AAA pan fyddaf yn ei chyflwyno ar y cyfle nesaf.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at David Melding AC yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, er ei wybodaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'Huw Lewis'.

**Huw Lewis AC / AM**

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau  
Minister for Education and Skills